## Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

## Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Cyfarfod 4

Dydd Iau Gorffennaf 7 2016 10.00 y.b.
Castle Suite 1
Quay Hotel, Deganwy, Gogledd Cymru

| | | Papurau |
|---|---|---|
| 1 | *10:00 – 10:15*<br>Croeso – Sylwadau Agoriadol / Cyflwyniad– y wybodaeth ddiweddaraf ar penodiad Gweinidogol/busnes | |
| 2 | *10:15 – 10:25*<br>Cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Monitro – 26 Tachwedd 2015 - Dulyn – pwyntiau gweithredu | IWPMC1420(04)01 |
| 3 | *10:25 – 10:35*<br>Refferendwm y DU: y Goblygiadau i'r Rhaglen | Diweddariad Llafar |
| 4 | *10:35 – 10:50*<br>Adroddiad diweddaru – y Gydysgrifenyddiaeth | IWPMC 1420 (04)02 |
| 5 | *10:50 – 11:00*<br>Datblygiad Echel Blaenoriaeth 3 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf | IWPMC 1420(04)03 |
| | Coffee Break | |
| 6 | *11:20 – 11:30*<br>Y wybodaeth ddiweddaraf am e-gydlyniant | Diweddariad Llafar |
| 7 | *11:30 – 11:45*<br>Y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd | IWPMC1420 (04) 04/ Diweddariad Llafar |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | *11:45 – 12:00*<br>Cyfathrebu – gwefan y rhaglen | IWPMC1420 (04) 05<br>Cyflwyniad |
| 9 | *12:00 – 12:25*<br>*Dŵr: Uisce, cyflwyniad ar weithrediad a gymeradwywyd* | Cyflwyniad gan bartneriaid prosiect |
| 10 | *12:25 – 12:30*<br>Unrhyw fater arall | |
| | *Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2014-2020 Iwerddon Cymru gymeradwyo gan CE – ddosbarthu er gwybodaeth* | *IWPMC1420(04) 06* |

IRELAND WALES
2007 – 2013

Cyfarfod 15 Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013

| | | Papurau |
|---|---|---|
| 1 | *12:30 – 13:00*<br>Adroddiad Diweddaru 2007-2013 (gan gynnwys y sefyllfa pan ddaeth y rhaglen i ben) | PMC 16 01 |
| 2 | Unrhyw fater arall | |

**Gydysgrifenyddiaeth – Mehefin 2016**

**Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020**

**Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Cyfarfod 4**

Castle Suite 1, Quay Hotel, Deganwy, Conwy

7 Gorffennaf 2016

Cofnodion

*Mae rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad 1.*

**Eitem 1 – Croeso – Sylwadau Agoriadol / Cyflwyniad.**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i Gonwy ac i bedwerydd cyfarfod Pwyllgor Monitro Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020.

2. Roedd dau arsyllwr yn y cyfarfod, sef Lowri Gwilym o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Craig Jones a oedd ar brofiad gwaith gyda'r Cynghorydd Ronnie Hughes.

3. Diolchodd y Cadeirydd i Barbara Burchell o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y bagiau o nwyddau lleol a roddwyd i bob aelod o'r Pwyllgor Monitro.

4. Rhestrodd Linda Weaver o'r gydysgrifenyddiaeth y rhai a oedd wedi ymddiheuro a chyflwynodd y rhai a oedd yn dirprwyo ar eu rhan.

5. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Janine Downing a oedd yn cynrychioli Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn lle Judith Stone.

6.  Cyflwynwyd Peter Ryland, Pennaeth Perfformio a Chyllid, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Phillipa Morgan, aelod newydd o'r gydysgrifenyddiaeth a oedd yn gweithio yn y swyddfa yng Nghaerfyrddin. Dywedodd y Cadeirydd hefyd, yn absenoldeb Bethan Thomas, ei bod hithau wedi'i recriwtio'n ddiweddar i dîm y gydysgrifenyddiaeth fel Swyddog Gweithrediadau canolbarth a gogledd Cymru. Diolchodd y Cadeirydd i Roger Seddons am ei gyfraniad at y rhaglen.

7. Diolchodd y cyd-gadeirydd i'w gydweithwyr yng Nghymru am y croeso a estynnwyd i'r holl aelodau a'r swyddogion y noson flaenorol pan gynhaliwyd cinio croeso, a diolchodd hefyd am eu cydweithrediad parhaus.

8. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod Gweinidog newydd yn awr yn Llywodraeth Cymru ac mai Mark Drakeford oedd yn awr yn gyfrifol am raglenni'r UE yng Nghymru. Yn Llywodraeth Iwerddon, Paschal Donohoe oedd yn gyfrifol am Gronfeydd Strwythurol.

**Eitem 2- Cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Monitro  – 26 Tachwedd 2015  - Dulyn.**

9.  Cyfeiriodd y Cadeirydd at gofnodion y cyfarfod blaenorol gan ofyn a oedd unrhyw fanylion i'w cywiro ac a oedd unrhyw sylwadau. Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir.

**Eitem 3- Refferendwm y DU: y Goblygiadau i'r Rhaglen.**

10.  Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth ar y refferendwm drwy gadarnhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru a WEFO i'r rhaglen yn parhau a'i bod 'ar agor ar gyfer busnes' o hyd.

11.  Cadarnhaodd Stephen Blair (SB) fod angen i fuddiolwyr glywed y negeseuon hyn a'n bod yn parhau i gyfrannu at y Rhaglen ac mai 'busnes fel arfer' yw hi.

12.  Cadarnhaodd Peter Ryland (PR) nad oedd gennym unrhyw neges glir ar hyn o bryd ond, dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddai'r dewisiadau'n dod i'r amlwg a, phan fo modd, dylem fwrw ymlaen â chynigion i roi cymaint o'r rhaglen ar waith yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Cadarnhaodd PR y byddai trafodaethau eraill yn cael eu cynnal

yfory yn WEFO ac y gallai hynny arwain at gyhoeddiadau eraill ac, yn y cyfamser, mae'r rhaglen 'ar agor ar gyfer busnes'.

13 Cadarnhaodd Patricia Hennessey (PH) o'r Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio fod ymrwymiad Llywodraeth Iwerddon i'r rhaglen yn parhau. Fodd bynnag, roedd angen eglurhad ar fyrder, yn enwedig o safbwynt amserlenni.

14. Yna, cafwyd trafodaeth ar effaith pleidlais y DU i adael yr UE. Soniodd yr aelodau am yr arian a fyddai'n cael ei golli oherwydd y bleidlais, ac effaith hynny ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Teimlwyd y dylid cyflymu'r broses o roi'r holl raglenni ar waith a bod rhai noddwyr, fel awdurdodau lleol, wedi rhoi prosiectau'r UE ar waith yn y gorffennol a'u bod, felly, mewn sefyllfa dda i ymateb. Roedd yr aelodau'n cydnabod hefyd y byddai angen i Lywodraeth Cymru a WEFO symud yn gyflym i ystyried gweithgareddau a'u blaenoriaethu. Roedd y canlyniad wedi siomi cydweithwyr o Iwerddon a thanlinellwyd bod angen gwybodaeth glir yn ddiymdroi am amserlenni a thybiaethau cynllunio unwaith y byddai Llywodraeth y DU yn dod ag Erthygl 50 i rym.

15. Diolchodd y Cadeirydd am y sylwadau a sicrhaodd yr aelodau fod eu pryderon eisoes yn rhan o drafodaethau Llywodraeth Cymru, a thrafodaethau Llywodraeth y DU yn San Steffan.

16. Dywedodd SB ei fod yn derbyn bod ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol, ac anogodd yr holl aelodau i drosglwyddo'r neges i randdeiliaid a'r gymuned ehangach mai 'busnes fel arfer' yw hi ar hyn o bryd, ac y gallai hyn helpu i leddfu pryderon.

17. O gofio na fyddwn yn gallu manteisio ar y Cronfeydd Strwythurol cyn bo hir, tanlinellodd PR y posibilrwydd y byddai Archwilwyr yn rhoi mwy o sylw i'r rhaglenni oherwydd y cynnydd yn y 'risg' sydd ynghlwm wrth WEFO yn awr. Cadarnhaodd PR fod cydweithwyr yn yr ardaloedd gwledig wedi cael gwybod y bydd 100% o'r trafodion yn cael eu harchwilio.

18. Nodwyd absenoldeb Swyddog Desg yr UE a chadarnhaodd y Cadeirydd fod swyddogion y Comisiwn wedi cael cyfarwyddyd yn eu cynghori nad oeddent yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd os oedd Refferendwm y DU ar yr agenda.

19. Awgrymwyd y dylid rhoi un datganiad ar wefan Iwerddon Cymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod dolen at ddatganiad Prif Weinidog Cymru wedi'i gynnwys ar y wefan ar 24 Mehefin 2016.

**Eitem 4- Adroddiad diweddaru – y Gydysgrifenyddiaeth.**

20. Cyfeiriodd Linda Weaver (LW) at yr Adroddiad Diweddaru a baratowyd gan y gydysgrifenyddiaeth. Roedd aelodau'r Pwyllgor Monitro wedi gweld yr adroddiad eisoes, a rhoddodd grynodeb o'r prif bwyntiau.

21. Cyfeiriodd LW at Atodiad 2 i'r papur a dywedodd wrth yr aelodau y dylid bod yn ofalus wrth ystyried y wybodaeth ariannol gan nad oedd costau'r prosiect wedi'i herio eto. Cadarnhaodd LW y byddai'r holl adroddiadau ariannol, yn y dyfodol, yn cael eu paratoi ar ffurf PPIM, fel yr adroddiad a gyflwynodd Gavin Lewis (WEFO RME) i'r Pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol. Cyfeiriodd LW at dablau Dangosyddion a Chanlyniadau Blaenoriaethau 1-3 ac, unwaith eto, roedd angen bod yn ofalus wrth ystyried y rhain gan nad oedd y ffigurau hyn wedi'u herio eto i benderfynu a oeddent yn ymarferol ac yn gyraeddadwy.

22. Cwblhaodd LW ei hadroddiad a gofynnwyd am sylwadau / cwestiynau o'r llawr:

23. Diolchwyd i LW am ei hadroddiad ac yn arbennig am y fformat a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r data. Nodwyd hefyd fod y rhaglen yn mynd rhagddi'n dda ar hyn o bryd.

24. Nodwyd bod y cynnydd a wnaed gyda Blaenoriaeth 3 yn dal yn arafach o'i gymharu ag agweddau eraill ar y rhaglen. Trafodwyd y mater ymhellach o dan eitem 5.

25. Gofynnodd yr aelodau pryd y caiff y cynigion eu rhannu er mwyn cynnal adolygiad gan gymheiriaid neu i gael sylwadau proffesiynol. Dywedodd LW eu bod yn gofyn am gyngor fesul achos, gan nodi y byddai angen gwybodaeth arbenigol yn fuan yn y broses yn achos y cynigion mwy technegol ond, os nad oedd angen cymaint o ddata technegol, roedd modd gwneud hynny yn ystod y cyfnod cynllunio busnes.

26. Holodd yr aelodau hefyd ynghylch cysylltiadau posibl â rhaglenni ETC eraill a strategaethau cenedlaethol eraill. Cadarnhaodd y

gydysgrifenyddiaeth fod Cymru ac Iwerddon yn cael eu cynrychioli ar Raglenni Ardal yr Iwerydd a Gogledd-orllewin Ewrop, ac y byddent yn ymwybodol o’r gweithgareddau a oedd cael cefnogaeth.

27. Cadarnhaodd y gydysgrifenyddiaeth fod y cysylltiadau diwylliannol wedi’u creu eisoes yn Sir Gaerfyrddin o fewn cynnig yn ymwneud â Blaenoriaeth 3. Tynnodd aelodau sylw hefyd at y cysylltiadau posibl â strategaeth yr ‘Hen Ddwyrain’, yn enwedig gan fod Wexford wedi’i dynodi’n Ganolfan Diwylliant 2020.

28. Gofynnwyd i WEFO a fyddent yn awr yn cymeradwyo prosiectau ar gyfer dwy neu efallai dair blynedd. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y mater yn cael ei ystyried yn barod ond, nes byddai amserlenni cliriach, byddai’n rhaid rhoi cymeradwyaeth fesul achos. Cadarnhaodd un aelod a fu ym Mhwyllgor Monitro’r Alban/Iwerddon/Gogledd Iwerddon y byddan nhw’n adolygu pob prosiect sydd ar y gweill er mwyn blaenoriaethu.

29. Roedd yr aelodau’r cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran rhoi’r rhaglen ar waith gan gydnabod bod diddordeb iach iawn mewn prosiectau o dan Blaenoriaeth 1. Ar y llaw arall, nododd yr Aelodau y bu’r cynnydd a wnaed o dan Flaenoriaeth 3 yn arafach, a chynigiwyd cefnogaeth i sicrhau mwy o ddiddordeb.

30. Holodd yr aelodau a oedd noddwyr y prosiectau’n gwbl barod i ymdopi â’r ffaith y byddai arian yn cael ei golli a’r modd y byddai hyn yn effeithio ar eu cadwyn gyflenwi. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i bob prosiect fod â ‘strategaeth ymadael’ fel ffordd o sicrhau bod y gweithgaredd neu’r canlyniad yn gynaliadwy y tu hwnt i oes y prosiect ei hun.

31. Esboniodd un o’r aelodau sut roedd rhaglen Horizon 2020 yn gweithio gan ddweud bod llai o brosiectau’n cael eu hystyried ond bod y cyllidebau’n fwy, a bod y dull o weithredu’n fwy strategol.

32. Ymatebodd DK fod rhaglen 2014-2020 eisoes yn ceisio efelychu’r syniad o ystyried prosiectau mwy sylweddol a strategol o’u cymharu â phrosiectau rhaglen 2007-2013.

33. Holodd CLILC a ddylid cyfyngu ar hyd prosiectau, gan fod angen ystyried gallu prosiect i sicrhau canlyniadau.

34. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod holl sylwadau a phryderon yr aelodau wedi'u nodi. Byddai'r gweithgareddau sydd ar y gweill yn cael eu hasesu tra byddwn yn aros am wybodaeth gliriach am yr amserlen ar gyfer gadael yr UE.

**Eitem 5 - Datblygiad Echel Blaenoriaeth 3 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf.**

35. Cyflwynodd LW bapur cyn arwain trafodaeth yn tynnu sylw at baragraff 4 '– y sefyllfa bresennol o ran y cynigion ym Mlaenoriaeth 3'. Cadarnhaodd LW fod 56% o'r cyllid a oedd ar gael wedi'i glustnodi, o bosibl, a dywedodd wrth yr aelodau fod natur y Flaenoriaeth yn golygu y byddai gweithgareddau a syniadau'n arafach yn datblygu. Croesawodd LW unrhyw gymorth a oedd ar gael gan aelodau'r Pwyllgor Monitro i ennyn diddordeb yn y Flaenoriaeth hon.

36. Cadarnhaodd swyddogion y gydysgrifenyddiaeth y byddent hwy, fel Swyddogion Gweithrediadau Iwerddon Cymru bob amser yn annog partneriaid arweiniol i weithio gyda'r trydydd sector.

**Eitem 6 – Y wybodaeth ddiweddaraf am e-gydlyniant**

37. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth ar lafar i'r Pwyllgor yn cadarnhau bod rhaglen Iwerddon Cymru yn bodloni gofynion e-gydlyniant y Comisiwn Ewropeaidd drwy gyfrwng PPIM, y system TGCh fewnol a WEFO ar-lein, platfform TGCh ar gyfer cwsmeriaid.

38. Holodd SB ynghylch hynt y broses ddynodi.

39. Esboniodd y Cadeirydd y broses gan sicrhau'r Pwyllgor y byddai'r rhaglen yn cael ei dynodi o fewn amserlenni'r UE. Roedd PR yn hyderus y byddai'r rhaglen yn cael ei dynodi gan fod y rhaglenni domestig yng Nghymru eisoes wedi'u dynodi.

40. Cadarnhaodd y Cadeirydd y disgwylir i'r dogfennau gael eu cyflwyno at ddibenion dynodi o fewn amserlen yr UE.

**Eitem 7 – Y wybodaeth ddiweddaraf am y polisi Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd**

41. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb byr o gyfarfod blynyddol 2016 a drefnwyd gan y Comisiwn ar gyfer Awdurdodau sy'n rheoli Interreg a'r cydysgrifenyddiaethau. Roedd Mike Pollard yn bresennol yn y cyfarfod.

**Eitem 8 – Cyfathrebu – gwefan y rhaglen**

42. Yn absenoldeb cyfleusterau TGCh, esboniodd LW y cyflwyniad a ddosbarthwyd eisoes i'r aelodau. Y wefan yw www.irelandwales.eu. Caiff ei diweddaru'n rheolaidd a'i defnyddio i gyflwyno gwybodaeth amrywiol e.e. swyddi a grëwyd. Gellir ei defnyddio hefyd i dynnu sylw at wybodaeth am brosiect ac i lansio digwyddiadau ac mae ar gael yn Gymraeg. Gwahoddwyd yr aelodau i anfon unrhyw wybodaeth newydd i'w chynnwys ar y wefan i'r gydysgrifenyddiaeth drwy flwch negeseuon e-bost Iwerddon Cymru.

43. Roedd cytundeb cyffredinol fod y wefan yn hawdd ei defnyddio a chynigiwyd sylwadau ffafriol ar ei chynllun.

44. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'n bosibl arbed dogfennau ar wefan yn y dyfodol er hwylustod. Cadarnhaodd LW y caiff agenda a chofnodion y cyfarfodydd blaenorol eu rhoi ar y wefan.

45. Yng nghyswllt y data a oedd i'w weld ar dudalen y Tabl, gofynnodd un o'r aelodau sut roedd y rhaglen bresennol h.y. 2014/2020 yn cymharu â rhaglen 2007/2013 o ran y cynnydd a wnaed hyd yma?

46. Esboniodd DK na fyddai'r gymhariaeth yn un deg o gofio'r gwahaniaethau ym mhrosesau'r ddwy raglen. Dywedodd DK fod rhaglen 2007/2013 ychydig ar y blaen, efallai, ond bydd gweithgareddau mwy yn cael eu cymeradwyo yn rhaglen 2014/2020 a byddant yn weithredol yn gynt.

47. Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff rhagor o weithgareddau eu cyflwyno yng nghylch 2014/2020 ac y bydd y rhain yn fwy strategol eu natur ac ar raddfa ariannol ehangach.

**Eitem 9 – Dŵr: Uisce, cyflwyniad ar weithrediad a gymeradwywyd**

48. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dr Prysor Williams o Brifysgol Bangor. Rhoddodd Dr Prysor Williams gyflwyniad i'r Pwyllgor Monitro yn disgrifio nodau ac amcanion y gweithgaredd a oedd wedi'i gymeradwyo.

49. Diolchodd y Cadeirydd i Dr Prysor Williams am ei gyflwyniad gan roi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Cynhaliwyd sesiwn Holi ac Ateb ddefnyddiol, a gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau treiddgar.

**Eitem 10 – Unrhyw fater arall**

50. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall yn ymwneud â rhaglen 2014/2020. Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

51. Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Gweithredu Blynyddol a'r Crynodeb i Ddinasyddion, ac roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr aelodau ei bod yn ddogfen ddefnyddiol a oedd yn disgrifio'r rhaglen yn dda ac yn egluro rhai agweddau arni'n fanylach.

IRELAND WALES
2007 – 2013

# Cyfarfod Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013

**Eitem 1- Adroddiad Diweddaru 2007-2013 (gan gynnwys y sefyllfa pan ddaeth y rhaglen i ben)**

1. Rhoddodd DK grynodeb o'r papur a ddosbarthwyd gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol a ganlyn:
   - Cwblhawyd gweithgareddau'r 41 prosiect. Cadarnhaodd DK y bydd tri neu bedwar prosiect yn cael y taliad olaf maes o law;

   - Mae'r cais dros dro terfynol wedi'i gyflwyno i'r UE a disgwylir y bydd archwiliadau'n cael eu cynnal cyn bo hir.
   - Pan fydd gwariant y rhaglen wedi cyrraedd 95%, ni wneir rhagor o daliadau nes bydd yr holl ddogfennau wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd a bydd yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau. Bydd Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio Llywodraeth Iwerddon yn rhoi cymorth ariannol i gau'r bwlch ariannu fel na fydd unrhyw brosiect yn gorfod aros am eu taliad olaf.

2. Dywedodd SB ei fod yn falch bod y rhaglen wedi llwyddo i gyrraedd yr holl dargedau cynnyrch ac wedi rhagori ar y targed mewn nifer o achosion. Roedd yn glod i'r gydysgrifenyddiaeth yng Nghynulliad Rhanbarth y De.

3. Cadarnhaodd LW y caiff cyfarfod nesaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ei gynnal yn Iwerddon ym mis Tachwedd.

**Eitem 2 - Unrhyw fater arall**

4. Doedd dim i'w drafod.

5. Sylwadau i gloi.

   Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen am gyfarfod llwyddiannus. Roedd am atgoffa'r aelodau o Gymru fod angen iddynt lenwi'r ffurflen dewis iaith er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'i rhoi i aelod o'r gydysgrifenyddiaeth.

Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol

| Enw | Sefydliad |
| --- | --- |
| Jane McMillan | WEFO |
| Peter Ryland | WEFO |
| Linda Weaver | WEFO |
| Patrick Lilly | WEFO |
| Phillipa Morgan | WEFO |
| Stephen Blair | Cynulliad Rhanbarth y De |
| David Kelly | Cynulliad Rhanbarth y De |
| Breda Curran | Cynulliad Rhanbarth y De |
| Emma Doran | Cynulliad Rhanbarth y De |
| Caitriona Phelan | Cynulliad Rhanbarth y De |
| Patricia Hennessy | DPER |
| Y Cynghorydd Meryl Gravell | CLlLC |
| Helen Morgan | CLlLC |
| Y Cynghorydd Ronnie Hughes | CLlLC |
| Barbara Burchell | CLlLC |
| Sian Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Janine Downing | CGGC |
| Yr Athro Richard Davies | HEA Wales |
| Gwion Williams | Llywodraeth Cymru |
| Lucy Corfield | Llywodraeth Cymru |
| Chriss O'Connell | WEFO – CCT |
| Jonathan Earl | Chambers Ireland |
| Y Cynghorydd Pip Breen | Cynulliad Rhanbarth y De |
| Hugh O'Reilly | WHEEL |
| Dave Corcoran | Adran yr Amgylchedd, y Gymuned a Llywodraeth Leol |
| Brian McDonagh | Cynulliad Rhanbarthol y Dwyrain a'r Canolbarth |
| Bernard O'Shea | Llywodraeth Iwerddon |
| Michael Clifford | Yr Adran Swyddi, Menter ac Arloesi |
| Fiona Grant | Marine Institute |
| Andy Richards | TUC Cymru |
| Lowri Gwilym | Arsyllwr |
| Craig Jones | Ar brofiad gwaith gyda'r Cynghorydd Ronnie Hughes |